

MEMORANDWM CYD-DDEALLTWRIAETH

RHWNG

Cyngor Celfyddydau Cymru

A

Confederasiwn GIG Cymru

MAE'R MEMORANDWM CYD-DDEALLTWRIAETH HWN (y cyfeirir ato ar ôl hyn fel y Memorandwm) yn cael ei wneud ar **12 Rhagfyr 2023**.

RHWNG

Cyngor Celfyddydau Cymru

A

Confederasiwn GIG Cymru

LLE MAE

- A Cyngor Celfyddydau Cymru a Confederasiwn GIG Cymru yn dymuno datblygu ymhellach feysydd gwaith ar y cyd i hyrwyddo'r nod cyffredin o wella ymwybyddiaeth o'r buddion y gall y celfyddydau eu cael ar iechyd a lles, a chreu Cymru fwy cyfartal, diwylliannol a mwy cynaliadwy fel sy'n ofynnol o fewn Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.
- B Cyngor Celfyddydau Cymru yw corff cyhoeddus swyddogol y genedl ar gyfer ariannu a datblygu'r celfyddydau. Cydffederasiwn GIG Cymru yw'r corff aelodaeth ar gyfer arweinwyr y GIG yng Nghymru a'i ddiben elusennol yw "lleddfu salwch a gwarchod a diogelu iechyd y cyhoedd".
- C Dyma'r trydydd Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Cyngor Celfyddydau Cymru a Confederasiwn GIG Cymru yn dilyn y Memorandwm cyntaf rhwng Medi 2017 – Medi 2020 a'r ail Memorandwm rhwng Tachwedd 2020 a Tachwedd 2023.
- CH Mae Cyngor Celfyddydau Cymru a Confederasiwn GIG Cymru yn dymuno cydweithio i hyrwyddo, hwyluso a gweithredu cydweithrediad yn y gweithgareddau canlynol.

CYTUNWYD AR Y CANLYNOL:

ERTHYGL 1 MEYSYDD O GYDWEITHIO

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru a Confederasiwn GIG Cymru yn cytuno i'r nodau ac amcanion canlynol:

- a) Cydweithio i gefnogi datblygiad arferion da, hyrwyddo cydweithio, cydlynu a lledaenu ymchwil a llywio polisi a chyflawni o ran buddion y celfyddydau i iechyd pobl (iechyd corfforol a meddyliol) a lles, gan gynnwys iechyd meddwl a lles artistiaid a gweithlu GIG Cymru;
- b) Cynhyrchu briffiau neu adroddiadau perthnasol ar y cyd ynglŷn â buddion y celfyddydau i iechyd a lles pobl a chyfrannu at y sylfaen o dystiolaeth gynyddol ar gyfer y celfyddydau ac iechyd;
- c) Bod yn aelodau rhagweithiol o Grŵp Trawsbleidiol y Senedd ar y Celfyddydau ac Iechyd, Bwrdd Partneriaeth Llesiant Llywodraeth Cymru, Grŵp Partneriaeth Strategol Hapus Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru a chydweithio ar ddigwyddiadau ar y cyd a chyfarfodydd strategol eraill lle bo'n briodol;
- ch) Parhau i weithio mewn partneriaeth â Chydlynwyr y Celfyddydau ac Iechyd o fewn sefydliadau'r GIG, Rhwydwaith Iechyd a Llesiant Celfyddydau Cymru (WAHWN) a Sefydliad Baring ar feysydd allweddol sydd o ddiddordeb i'r ddwy ochr, gan gynnwys presgripsiynu cymdeithasol, iechyd a lles meddyliol a hyrwyddo arferion gorau ledled Cymru;
- d) Codi ymwybyddiaeth o waith Cydlynwyr y Celfyddydau ac Iechyd o fewn Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre, ar draws y GIG a'r sector cyhoeddus yn ehangach. Yn ogystal, i rannu arferion da a thystiolaeth o fuddion y rôl o ran cefnogi profiad cleifion, gwella ansawdd gwasanaethau, cefnogi canlyniadau iechyd a lles positif a gwella lles staff a lles cymunedol;
- dd) Bwrw ymlaen â'r argymhellion a gyflwynwyd yn y Gwerthusiad o Raglen Meithrin Gallu Cydlynwyr y Celfyddydau ac Iechyd a rhannu Fframwaith Llwyddiant y Celfyddydau ac Iechyd sydd ar y gweill ar gyfer sefydliadau'r GIG;
- e) Cydweithio i godi ymwybyddiaeth o fuddion bod yn greadigol ar iechyd a lles pobl gyda rhanddeiliaid strategol allweddol, gan gynnwys Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yng Nghymru; a
- f) Cydweithio i godi ymwybyddiaeth gyda phobl Cymru am fuddion bod yn weithgar yn greadigol er mwyn i bobl fwynhau a byw bywydau mwy egnïol, mwy cyfartal ac iachach.

ERTHYGL 2 RHEOLAETH

Bydd Cyngor Celfyddydau Cymru a Confederasiwn GIG Cymru yn penodi cynrychiolwyr i gytuno a goruchwyllo'r gwaith o reoli gweithgareddau ar y cyd fel y nodir yn y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn. Gallai cynrychiolwyr Cyngor Celfyddydau

Cymru a Conffederasiwn GIG Cymru gwrdd yn fisol i adolygu cynnydd wrth weithredu'r trefniadau y cytunwyd arnynt, diffinio meysydd newydd ar gyfer cytundeb a rhaglenni cydweithredu yn ogystal â thrafod materion sy'n ymwneud â'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn.

ERTHYGL 3 DIWYGIADAU

Dim ond drwy gydgytundeb y gellir diwygio'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn, gyda thystiolaeth ysgrifenedig gan gynrychiolydd a awdurdodwyd yn briodol gan Gyngor Celfyddydau Cymru a Conffederasiwn GIG Cymru.

ERTHYGL 4 TELERAU'R CYTUNDEB

Bydd y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yn dechrau ar ddyddiad ei weithredu gan yr olaf i arwyddo o Gyngor Celfyddydau Cymru a Conffederasiwn GIG Cymru, a bydd yn parhau mewn grym am gyfnod o dair blynedd gydag adolygiad ar y cyd ar ôl cyfnod o 18 mis. Gall y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn gael ei adnewyddu pan ddaw i ben a chyda chytundeb y ddau barti. Os bydd y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn parhau'n segur am ddeunaw mis yn olynol, bernir ei fod wedi dod i ben.

Gall naill ai Cyngor Celfyddydau Cymru neu Conffederasiwn GIG Cymru ganslo'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn drwy roi chwe mis o rybudd ysgrifenedig i'r llall. Ni fydd dod â'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn i ben yn effeithio ar weithrediad y prosiectau neu'r rhaglenni a sefydlwyd oddi tano cyn terfyniad o'r fath.

ERTHYGL 5 STATWS CYFREITHIOL

Ni ddylid dehongli dim yn y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn fel un sy'n creu unrhyw berthynas gyfreithiol rhwng y partïon. Mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yn ddatganiad o fwriad i feithrin cydweithrediad gwirioneddol sy'n fuddiol i'r ddwy ochr.



Cyngor Celfyddydau Cymru

Maggie Russell

Maggie Russell, Cadeirydd

Dyddiad: 12/12/2023



Confederasiwn GIG Cymru

EW

Emma Woollett, Cadeirydd

Dyddiad: 12/12/2023